

Gwybodaeth Rhaglenni Programme Information – S4C

Dydd Sadwrn - Saturday 17/01/2026

06:00 CYW (HD)

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.

Fun-filled programmes for younger viewers.

06:00 CYWION BACH - Lori (R) (S) (SC) (HD)

Dere ar antur geiriau gyda'r Cywion Bach wrth iddyn nhw ddysgu gair arbenig - Lori. Bîp Bîp!

Come on a word adventure with the Cywion Bach as they learn a special word today, Lori (lorry) Beep Beep!

06:10 PENTRE PAPUR POP - Diwrnod Mawr Llyfrau Twm (R) (SC) (HD)

Ar yr antur popwych heddiw mae'n Ddiwrnod Llyfr Mawr Pentre Papur Pop! Ond mae gan Twm gyfrinach... Tydi o ddim yn gallu darllen yn dda iawn! All Twm gongro ei ofn a darllen i'w ffrindiau?

On today's popstastic adventure, the friends are celebrating Big Book Day. But Twm has a secret... He's not very good at reading! Can Twm overcome his fears and read out loud?

06:20 BENDIBWMBWLS - Ysgol Dyffryn Cledlyn (R) (S) (SC) (HD)

Mae Ben Dant ar antur newydd i ailgylchu, a throi sbwriel yn sbeshal, a gwastraff yn gampwaith. Heddiw bydd e'n ymuno â disgyblion Ysgol Dyffryn Cledlyn i greu trysor penigamp.

Ben Dant is on a new adventure to recycle and turn rubbish into something special and waste into a masterpiece. Today, he will join the pupils of Ysgol Dyffryn Cledlyn to create a superb treasure.

06:30 BLERO YN MYND I OCIDO - Brwydr y Bwrlwm (R) (S) (SC) (HD)

Mae'n gystadleuaeth rhwng Maer Oci a Rheinallt – dwr pefriog pwy fydd ar y brig? Mae Blero'n trio helpu, ond mae pethau'n mynd yn flêr iawn.

Mayor Oci and Rheinallt get competitive. Whose fizzy water will come out on top? Blero tries to help them, but things get very fizzy very quickly.

06:45 HELP LLAW – Cynan - Penblwydd Nain (R) (S) (SC) (HD)

Mae Harriet wedi archebu cacen arbennig ar gyfer penblwydd Nain Help Llaw yn 100 oed, ond mae popty'r pobydd wedi torri!

Harriet has ordered a special cake for Grandma Help Llaw's 100th birthday, but the baker's oven is broken!

07:00 YR WHWS - Ffeindo Gwichyn (R) (S) (SC) (HD)

Pan mae Wini'n colli ei morthwyl gwichlyd ar yr ynys, mae'r ffrindiau'n ail-droedio'u llwybr ac yn sylweddoli eu bod wedi defnyddio eu synhwyrau i ffeindio'r morthwyl coll.

When Wynona loses her squeaky hammer somewhere on the island, the friends retrace their steps and then realise they used their senses to find the missing hammer.

07:10 KIM A CAI A CRANC (R) (S) (SC) (HD)

Mae Kim a Cai yn cwrdd â chreadur bach direidus ar y traeth – Cranc. Ar ôl ychydig maen nhw'n sylweddoli mai Cranc sy'n chwarae triciau arnyn nhw. Mae e'n stompio ar eu castell tywod, yn cuddio eu hesgidiau glaw, a hyd yn oed yn bwyta sglodion Kim a Cai cyn rhedeg i ffwrdd.

Kim and Cai meet a mischievous little creature on the beach – Cranc. After a little while, they realise it is Cranc who is playing tricks on them. He's stomping on their sandcastles, hiding in their wellies and is even eating their chips before running away.

07:25 BLWI - Cysgodion (R) (SC) (HD)

Mae Coco yn chwarae cysgodion gyda Blwi a Snicyrs, ond mae hi'n trio newid y rheolau. Mae Blwi yn dangos iddi fod dilyn y rheolau weithiau'n fwy o hwyl.

Coco plays shadow lands with Bluey and Snickers, but she keeps trying to make the game easier, until Bluey helps her understand that sometimes it's more fun if you follow the rules.

07:35 JONI JET - Dwy Iaith, Un Dasg (R) (SC) (HD)

Efallai nad ydyn nhw'n siarad yr un iaith, ond mae'r Jetlu a Crwbi'n deall ei gilydd yn ddigon da i drechu Beti Bowen a'r Cnafon Creulon

They may not speak the same language, but the Jetlu and Crubbi understand each other well enough to defeat Beti Bowen and the Cruel Cnafon

07:45 DEIAN A LOLI -a'r Grogoch (R) (S) (SC) (HD)

Beth sy'n digwydd ym myd Deian a Loli heddiw, tybed?

What's happening in Deian and Loli's world today?

08:00 STWNSH SADWRN (HD)

Rhaglenni gwyb a digon o hwyl a sbri ar gyfer plant ar fore Sadwrn.

Fun, laughter and fab programmes for youngsters on Saturday mornings.

08:00 DENNIS A DANNEDD - Problemau Penwythnos (R) (HD)

Gweithred gyntaf Doctor Pfooflepfeffer fel pennaeth y llywodraethwyr yw troi'r ysgol yn ysgol breswyl. Fodd bynnag, mae'r disgyblion yn dyfeisio cyfres o ymdrechion beiddgar i ddianc.

Doctor Pfooflepfeffer's first act as head of governors is to turn Bash Street School into a boarding school. However, the pupils devise a series of daring attempts to escape.

08:10 PRYS A'R PRYFED - Perfformiad a Hanner (R) (HD)

Beth sy'n digwydd ym myd Prys a'r Pryfed heddiw, tybed?

What's happening in the world of Prys and friends today?

08:25 DYFFRYN MWMIN - Cyfrinach y Hatiffatwyn (R) (SC) (HD)

Mae Snorcferch yn annog Mwminrol i fynd â hi ar fordaith i ynys ddirgel lle daeth Mwminrolada unwaith ar draws yr Hattiffatwyr rhyfeddol a'u cysylltiad â stormydd.

Snorkgirl encourages Moomintrol to take her on a voyage to a mysterious island where Mwminrolada once encountered the wonderful Hattiffatwyr and their association with storms.

08:45 BOOM BANG! - Ysgol Bro Preseli (R) (S) (SC) (HD)

Aled Bidder a Heledd Roberts sy'n cyflwyno cyfres ffrwydrol gyda dau dîm yn brwydro yn erbyn ei gilydd mewn heriau gwirion gwyddonol. Mae'r ddau dîm yn y labordy'r tro yma yn cynrychioli Ysgol Bro Preseli a bydd y gêm olaf yn ei herio nhw i weld pwy fydd yn cynhyrchu'r mwyaf o bŵer wrth seiclo.

Aled Bidder and Heledd Roberts present an explosive series with two teams battling each other in a mad science gameshow. The two teams in the lab this time represent Ysgol Bro Preseli and, in the final game, they'll be challenged to create the most power by cycling.

09:10 DREIGIAU: GWARCHODWYR BERC - Tydi'r Sgwar Ddim Digon Mawr (R) (HD)

Ymddengys i Igion fod cecru parhaol Anest a Snotfawr wedi effeithio ar eu dreigiau wrth i Bwchdan a Stormfelld dechrau ymladd yn ffyrnig. Ond cyn bo hir mae Twliddant a Cnec a Bwlc wrthi'n ffyrnigo. Sgodraed sydd yn darganfod y broblem sef Gwreiddyn Draig. Mae'r ateb yn syml; rhaid cael gwared ohono. Ond sut mae cael y criw i gydweithio er mwyn cyflawni'r dasg?

The dragons are fighting amongst themselves. How can the crew get them to work together to get rid of the cause of their discontent?

09:35 MABINOGI-OGI A MWY! - Rhys a Meinir (R) (HD)

Fersiwn bywiog criw Stwnsh o stori Rhys a Meinir. Yr wythnos hon mi fydd yna ymweliad arbennig gan dîm Priodas Pum Mil!

Join the Stwnsh team for their take on the story of Rhys a Meinir. This week there will be a special visit from the Priodas Pum Mil team!

10:00 DREIGIAU CADI - Tegell (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Pan nad oes dŵr ar gyfer yr injans, ni allant wneud stêm ac ni all y trenau redeg. Daw Cadi i'r adwy a gyda chymorth ei Dreigiau, Bledd a Cef, aethant ati i ddatrys y broblem.

When there's no water for the engines, they can't make steam and the trains can't run. Cadi comes to the rescue and with the help of her Dragons, Bledd and Cef, they set out to fix the problem.

10:15 IAITH AR DAITH - Jess Fishlock a Catrin Heledd (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Yr arwr pêl-droed Jess Fishlock sydd yn mynd ar Iaith Ar Daith y tro hwn. Wrth ei hochr bydd y gyflwynwraig chwaraeon Catrin Heledd. A fydd Jess yn cyrraedd ei gôl? *Footballing hero Jess Fishlock is on a road trip this time. At her side as she attempts to learn Welsh will be sports presenter Catrin Heledd. Will Jess reach her goal?*

11:20 GWLADFA: GWILYM BOWEN RHYS (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Cyfres deithio lle bydd y cerddor Gwilym Bowen Rhys yn ymweld â'r Wladfa ym Mhatagonia er mwyn darganfod mwy am hanes y Cymry ymfudodd yno yn 1865. Bydd Gwilym yn cwrdd â nifer o bobl leol ar hyd a lled y Wladfa wrth iddo ddysgu am yr hanes, yr iaith, y gerddoriaeth a'r diwylliant. Yn y rhaglen hon, mae Gwilym yn treulio'r diwrnod yn Nhrelew.

Travelogue series in which musician Gwilym Bowen Rhys travels to Patagonia to discover the history of the Welsh settlers who emigrated there in 1865. The Welsh language is still alive in many areas and during the series Gwilym will be inspired by the history, language, music and culture as he meets many of the locals. In this episode, Gwilym spends the day in Trelew.

11:50 FFERMIO (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Cyfres gylchgrawn am faterion cefn gwlad. *Weekly countryside and farming magazine.*

12:25 CYSGU O GWMPAS - Yr Albion (R) (S) (SC) (AD) (SL) (HD)

Amser i Beti a Huw ddod a'u taith i ben, a lle gwell i wneud hynny nag yng ngwesty'r Albion, Aberteifi. Wedi ei leoli ar lan y Teifi, bydd y ddau yn ymuno a llongwr lleol am fordaith fach, cyn mentro nol i'r aber am noson o chwerthin a pizza.

Time for Beti and Huw to end their journey, and what better place to do that than at the Albion hotel, Cardigan. Located on the banks of the Teifi, the two join a local boatman for a short cruise, before venturing back to the estuary for a night of laughter and pizza.

12:55 AM DRO! (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Heddiw fydd Laura yn tywys y criw i fyny Mynydd y Gwrhyd yng Nghwm Tawe. Yna i Fynydd Parys yn Amlwch gyda Matthew cyn ei throi hi am Nebo dan arweiniad Bethan. Gwilym fydd yn diweddu gyda taith o Benrhyncoch i Gapel Madog. Dewch i ni fynd Am Dro.

Today, Laura will be taking the crew up Gyrhyd Mountain in Cwmtawe. Then to Parys Mountain in Amlwch before heading to Nebo for Bethan's walk. Gwilym will be ending with a walk from Penrhyncoch to Capel Madog.

14:00 CANU GYDA FY ARWR - Mike Peters (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Ail-ddangosiad fel teyrnged i'r diweddar Mike Peters. Mewn rhaglen arbennig o Canu Gyda Fy Arwr, Rhys Meirion sy'n cael canu gyda rhai o'i arwyr cerddorol o: Emily, Jessica a Charlotte - tripledi ysbrydoledig o ardal Aberystwyth a Mike Peters o fand poblogaidd yr 1980au 'The Alarm'; hefyd cyfle i greu perfformiad arbennig o gan sydd wedi enwi ar ôl ei elusen 'Cariad, Gobaith a Nerth'. Bydd digon o chwerthin, crio a dathlu yn yr awr arbennig hon sy'n llawn canu a sgwrsio.

Repeat in tribute to Mike Peters, who died recently. In a special edition of Canu gyda fy Arwr, Rhys Meirion gets to choose his music idols: three inspiring sisters, Emily, Jessica a Charlotte, from Aberystwyth, and Mike Peters from the popular 80's rock band The Alarm. Also a chance to sing a special performance of the song named after his charity 'Love Hope and Strength.' There'll be plenty of emotion, singing and chatting.

15:00 PRIODAS PUM MIL - Einir & Jason (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Yn y bennod hon mae Trystan Ellis-Morris ac Emma Walford yn mynd ati i drefnu priodas Einir a Jason yn Nyffryn Nantlle.

In this episode Trystan Ellis-Morris and Emma Walford set about organising the wedding of Einir and Jason in Dyffryn Nantlle.

16:00 DIM CWSG I QUINNELL (R) (S) (SC) (AD) (SL) (HD)

Pan mae Cymru yn mynd i gysgu mae na griw arbennig o bobl yn dechrau eu diwrnod. Yn ymuno â'r garfan ddiwyd yma am un shift unigryw mae'r eicon rygbi a'r dysgwr Cymraeg, Scott Quinnell. Y tro yma, mae Scott yn godro ar fferm ger Pen-y-bont ac yn creu wisgi yn Nistyllfa Aber Falls yn Abergwyngregyn.

When Wales goes to sleep there is an exceptional group of people who are starting their day. Joining this diligent squad for one unique shift is rugby icon and Welsh learner, Scott Quinnell. This time, Scott is milking on a farm near Bridgend and creating whiskey at AberFalls Distillery in Abergwyngregyn, near Bangor.

- 16:30 COLLEEN RAMSEY: BYWYD A BWYD - Hyder i Coginio (R) (S) (SC) (SL) (HD)**
Cyfres goginio gyda Colleen Ramsey. Mae bywyd a bwyd yn dod law yn llaw i Colleen. Tro hwn mae Colleen yn rhannu ryseitiau a dulliau o goginio i roi hyder i bobol sy'n meddwl nad ydynt yn medru coginio. Mae ei chwaer Roisin yn ymuno gyda hi yn y gegin. Ryseitiau'r gyfres ar s4c.cymru/cegin.
Cookery series with Colleen Ramsey showing how she enjoys her life through food. This time, Colleen shares simple recipes and methods for people who don't think they can cook. Her sister Roisin joins her in the kitchen. All recipes on s4c.cymru/cegin.
- 17:00 IAITH AR DAITH - JOE LEDLEY A DYLAN Ebenezer (R)(S) (SC) (AD) (HD)**
Yr arwr pêl-droed, Joe Ledley, sy'n mynd a'r Iaith ar Daith drwy Gymru gyda cyflwynydd radio a theledu, Dylan Ebenezer.
Football legend Joe Ledley is on a road trip through Wales with Radio & TV presenter Dylan Ebenezer.
- 17:55 CYNEFIN - LLANDUDNO (R) (S) (SC) (HD)**
Llandudno. Bydd Heledd Cynwal, Iestyn Jones, Ffion Dafis a Siôn Tomos Owen yn crwydro o amgylch y dref lan mor Fictorianaid i ddarganfod mwy am ddylanwad y Gogarth ar y dref, byd theatrig Llandudno ag adrodd am rai o gymeriadau lliwgar yr ardal.
Llandudno. Heledd Cynwal, Iestyn Jones Ffion Dafis and Siôn Tomos Owen will discover the Victorian sea-side resort of Llandudno, to discover more about the importance of the Great Orme, Llandudno's theatrical heritage and will get to know some colourful characters.
- 19:00 SGWRS DAN Y LLOER - MALCOLM ALLEN (R) (S) (SC) (HD)**
Ry' ni'n Sgwrsio dan olau'r lloer yng nghwmni'r cyn pêl-droediwr rhyngwladol, Malcolm Allen. Cawn glywed am y dyddiau da a'r dyddiau tywyll, a chawn hefyd glywed am ei waith hollbwysig sy'n llonni ei galon y dyddiau yma draw yn Antur Waunfawr.
Join us for an intimate conversation with former international footballer Malcolm Allen. He shares the highs and lows from his career, and reflects on the challenges he's faced along the way. We'll also discover the inspiring work that now lifts his spirits at Antur Waunfawr.
- 19:30 NEWYDDION A CHWARAEON (S) (HD)**
Newyddion a chwaraeon y penwythnos.
Weekend news and sport.
- 19:45 CLWB RYGBI - GWEILCH V MONTPELLIER (HD)**
Gêm fyw Cwpan Her Rygbi Ewrop rhwng y Gweilch a Montpellier. Cae'r Bragdy. Pen-y-bont. G/C 20:00.
Live European Rugby Challenge Cup Ospreys v Montpellier at the Brewery Field, Bridgend. K/O 20:00.
- 22:05 AMOUR & MYNYDD (R) (S) (SC) (HD)**
Mae'r criw hanner ffordd drwy eu cyfnod yn Chalet Amour a Mynydd, a tensiynau yn dechrau amlygu. Mae perthynas Guto a Catrin dan straen, a mae gan Elin sypreis i'r wyth, wrth i ddau newydd lanio yn Ffrainc.
Half way through the gang's time in France, and tensions are rising in the chalet. Guto and Catrin's relationship is on the rocks, and Elin has a surprise for the singletons, as two new arrivals move into the Chalet.

23:05 BAR HANSH (R) (S) (SC) (HD)

Pwy gaiff y sac o'r ynys? Taith i gefn gwlad Zante er mwyn paratoi ar gyfer y noson ffermio – ac un sypreis arall gan Ameer.

Who gets sacked from the island? A trip into Zante's outback to prepare for Farming Night – and one more surprise from Ameer.

23:40 DIWEDD/CLOSE

Gwybodaeth Rhaglenni Programme Information – S4C

Dydd Sul - Sunday 18/01/2026

06:00 CYW (HD)

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.

Fun-filled programmes for younger viewers.

06:00 TOMOS A'I FFRINDIAU - Mae Cerddoriaeth Ymhobman (R) (SC) (HD)

Pan mae Nia, sy'n caru cerddoriaeth, yn sownd ac yn methu mynd i'r cyngerdd, mae Tomos yn dod a'r cyngerdd ati hi!

When music-lover Nia gets stranded before a big concert she's been waiting to see, Thomas brings the concert to her!

06:10 ANIFEILIAID BACH Y BYD (R) (S) (SC) (HD)

Dewch ar antur gyda ni i gwrdd ac anifeiliaid bach y byd ac yn y rhaglen hon cawn ddod i nabod y Rhino a'r Alpaca.

Come with us on an adventure around the world to get to know some of the animals that live here. In this programme we get to know the Rhino and the Alpaca.

06:20 PABLO - Y Pwll Nofio (R) (HD)

Mae gan Pablo ei ffordd ei hun o weld y byd, ac nid yw eisiau mynd i mewn i'r pwll nofio. Mae'r anifeiliaid, a holl gymeriadau'r pwll, yn llwyddo i'w ddenu i mewn trwy ddangos iddo gymaint o hwyl sydd i'w gael yno.

At the swimming pool, Pablo doesn't want to go into the water until the pool persuades him to try it.

06:30 DREIGIAU CADI - Achos y Bolll Coll (R) (S) (SC) (HD)

Yn yr iard ym Mhendre, mae Cadi yn sylweddoli ei bod wedi colli bolll bwysig. Dim ond 20 munud sydd ganddi i ddod o hyd i'r bolll felly mae'r dreigiau yn newid mewn i'w gwisgoedd ditectif ac yn mynd ati i holi pawb am y bolll coll. A fyddan nhw'n dod o hyd iddo mewn pryd?

In the yard at Pendre, Cadi realises that she has lost an important bolt. She only has 20 minutes to find the bolt so the dragons change into their detective outfits and start questioning everyone about the missing bolt. Will they find him in time?

06:45 BRETHYN A FFLWFF - Swigen (R) (S) (SC) (HD)

Mae Brethyn a Fflwff yn dod o hyd i sbwng sebonllyd yn yr iard. Maen nhw'n cael dipyn o hwyl gyda'r swigod di-ri - ond yw Fflwff yn gwybod pryd i stopio?

Tweedy and Fluff find a soapy sponge in the yard. Lots of bouncy bubbly fun but does Fluff know when to stop..?

06:50 ANNIBENDOD - Hadau Pw Pw (R) (S) (SC) (HD)

Mae Gwyneth Gwrtaith wedi meddwl am gynllun busnes newydd sbon: gwerthu Hadau Adar Pw Pw Pwerus a buan iawn mae Dad, Anni, Cai a Bela Drws nesa'n dod i ddeall pwser pw pw yr adar lleol!

Gwyneth Gwrtaith has thought of a new business plan: sell Powerful Poo Seeds and Dad, Anni, Cai and Bela Drws Nesa soon realise the power of the local birds poo!

- 07:00 GUTO GWNINGEN - Hanes Trychineb Dili Minllyn (R) (SC) (HD)**
 Mae Mrs Minllyn yn camddeall cyngor Guto ac yn ceisio cael cynhwysion o ardd Mr Puw felly mae Guto a'i ffrindiau yn ceisio ei hachub._
Mrs Minllyn misunderstands Guto's advice and tries to get ingredients from Mr Puw's garden. Guto launches a daring rescue mission.
- 07:15 NE-WFF-ION (R) (S) (SC) (HD)**
 Ar Newffion heddiw Lwsi'n ymweld â theulu sy'n addysgu eu plant gartre' a'r gwersi yn cynnwys dysgu am wenyn a mêl, a gwneud cloc haul.
On Newffion today Lwsi visits a family that teach their children at home some of the lessons include learning about bees and honey and creating a sundial.
- 07:30 SION Y CHEF - Diwrnod Gwallt-go (R) (HD)**
 Mae'r pentrefwyr yn ceisio ail greu sidan gwallt Carlos y steilydd gwallt er mwyn i Mama Polenta fynd i noson wobrwyo Groser y Flwyddyn.
Mama Polenta's friends try their very best to replicate Carlos the hairdresser's secret hair conditioner so that she can attend the Grocer of the Year awards.
- 07:40 CACAMWNCI (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae Cacamwnci yn ôl gyda mwy o sgetsys dwl a doniol! Cymeriadau newydd sbon fel Iestyn Ymestyn, Tesni Trwsio Popeth, Dani Rheolaeth, a rhai o'r ffefrynnau fel Plismon Preis, Vanessa drws nesa a Delyth Dylwythen. Byddwch yn barod am lond bol o chwerthin!
Cacamwnci is back with more funny and silly sketches! There are new characters like Iestyn Ymestyn, Tesni Trwsio Pobeth, Dani Rheolaeth, and a few favourites like Plismon Preis, Vanessa drws nesa and Delyth Dylwythen . Be ready for a belly full of laughs!
- 07:55 TWM TWRCH - Ar Goll Mewn Amser Rhan 1 (R) (S) (SC) (HD)**
 Beth sy'n digwydd ym myd Twm Twrch heddiw, tybed?
What's happening in Twm Twrch's world today?
- 08:05 PARC GLAN GWIL (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae Syr Gwil wedi trefnu noson arbennig o driciau hyd gan Hywel Hwyl a'i anifeiliaid, ond mae Madam Fflwffen y gwningen ar goll. Mae'r criw yn gorfod edrych ymhob man am y gwningen.
Syr Gwil has organised a special evening of magic tricks by Hywel Hwyl and his animals, but Madam Fflwffen the rabbit is missing. The crew look everywhere for the rabbit.
- 08:20 CRAWC A'I FFRINDIAU - Pasio'r Parsel (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae Giamocs yn dod lan hefo cynllun clyfar i'w chael hi a Chîff mewn i'r Crawcdy. Ond wedi cyrraedd yno, mae'n ymddangos falle nad yw'r cynllun mor glyfar wedi'r cwbl...
Giamocs comes up with a cunning plan for herself and Chiff to be delivered as a parcel into Toad Hall. But the journey there proves to be more much more arduous than she could possibly imagine.
- 08:30 WAW! - Gwenyn (R) (S) (SC) (HD)**
 Ymunwch â Awi a chriw Waw i ryfeddu at y gwenyn mêl!
Join Awi and the 'Waw' Crew to marvel at Honey bees!
- 08:50 PENBLWYDDI CYW (S) (SC) (HD)**
 Cyfle i edych 'nôl dros rai o gyfarchion pen-blwydd yr wythnos.
A look back at some of this week's birthday greetings.

09:00 TYWYSOGION - Llywelyn ein Llyw Olaf (R) (S) (SC) (HD)

Llywelyn oedd y tywysog cyntaf (a'r olaf) i gael ei gydnabod yn Dywysog Cymru gan Frenin Lloegr. Harri III oedd hwnnw ond daeth tro ar fyd i Llywelyn pan ddaeth Edward I i deyrnasu. Ar farwolaeth Llywelyn, daeth traddodiad hirfaith o frenhiniaeth Gymreig i ben, ond roedd ei deyrnasiad, ynghyd â'r goncwest a'i dilynodd, yn drobwynt yn hanes Cymru. Darlledwyd y rhaglen gyntaf yn 2006.

Llywelyn was the first (and last) Prince to be recognised as Prince of Wales by an English king. That king was Henry III but when his son, Edward I came to the throne, things took a turn for the worse for Llywelyn. They fought two wars and Llywelyn was eventually killed on the banks of the river Irfon near Builth Wells in 1282. First shown in 2006.

10:00 CYNEFIN - Castell Newydd Emlyn (R) (S) (SC) (HD)

Bro Emlyn sydd yn mynd â bryd Heledd Cynwal, Iestyn Jones a Siôn Tomos Owen yr wythnos hon wrth iddyn nhw fynd ar drywydd rhai o straeon difyr, cudd a gwaedlyd yr ardal. O ddreigiau tanllyd a rhyfeloedd gwaedlyd i ddiwydiannau a chrefftau traddodiadol, mae Bro Emlyn yn frith o straeon difyr. Yn ogystal â chymryd rhan yn ras flynyddol cwryglau Cenarth, byddant yn darganfod pwy, neu beth, oedd y Wiber, cyn cael taith freintiedig o amgylch eglwys go arbennig yn hen Wersyll Rhyfel Henllan. *Heledd Cynwal, Iestyn Jones and Siôn Tomos Owen visit Bro Emlyn seeking out the area's lesser known tales. From fire breathing dragons and bloody battles to traditional industries and crafts, the area has a wealth of stories. As well as taking part in Cenarth's annual coracle race, they find out who, or what, the Wiber was and are privileged visitors to a very special church on the site of the old Prisoner of War Camp in Henllan.*

11:00 SAIN FFAGAN (R) (S) (SC) (HD)

Dyma olwg unigryw tu ôl i ddrysau Sain Ffagan. Mae Ysgol Maestir o oes Fictoria yn cael ei wagio'n llwyr yn barod am waith adnewyddu a chadwraeth ar yr adeilad a'r eitemau y tu mewn. Mae casgliad newydd, a hollol unigryw, yn cyrraedd y ganolfan gasgliadau anferthol yn Nantgarw.

A unique behind-the-scenes look at Saint Fagan's National Museum of History. Maestir School is one of the most popular buildings, today it's emptied for conservation work on the Victorian building and the objects inside. A new collection joins the tens of thousands of items at the Museum's huge storage centre.

11:30 DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL - Cwmorthin (R) (S) (SC) (HD)

Lowri Morgan sydd yn hen bentre Cwmorthin ger Tanygrisiau i ddysgu am waith a chrefydd y chwarelwyr. Cawn berfformiad gan Gôr y Brythoniaid ac emynau o Gapel Bowydd, Blaenau Ffestiniog.

Lowri Morgan visits the ruined village of Cwmorthin to learn about the hard life and strong faith of the quarrymen. We enjoy a performance by Côr y Brythoniaid and hymns from Capel Bowydd, Blaenau Ffestiniog.

12:00 POBL HARRI PARRI - Caernarfon (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Mae Harri Parri wedi gwneud ei gartref yng Nghaernarfon ers degawdau ac mae pobl y dref unigryw honno wedi dylanwadu ar Harri'r awdur cymaint ag ar Harri'r gweinidog. Mae 'na bobl sy'n ysbrydoli Harri ac yn gwmni iddo - ar y peiriant rhedeg yn y Ganolfan Hamdden bob dydd Llun ac Iau - ac ym mhen arall y dref yng nghanolfan Noddfa wrth eu gwaith cymdeithasol gyda'r gymuned. Cawn weld ymarfer a llwyfannu ei Basiant diweddaraf, a darganfod sut y daeth i berchnogi capel oedd â theatr ynghlwm!

Harri Parri has lived in Caernarfon for decades and the town's close-knit community has inspired him both as minister and author over the years. We meet some of the 'Cofis' who have shared the journey with him, exercising in the Sports Centre every week and those who give their time every day at Noddfa Social Centre. When Harri first arrived in the town he inherited not only a chapel but an adjoining theatre which has led to a succession of successful performances over the years. Last in series.

12:30 CARTREFI CYMRU - Tai'r 1920au a'r 1930au (R) (S) (SC) (HD)

Cyfes lle bydd Aled Samuel a'r hanesydd adeiladau, Bethan Scorey yn edrych ar gartrefi Cymru drwy'r oesoedd. O oes y Tuduriaid hyd heddiw, byddwn ni'n agor y drws ar hanes ein cenedl drwy bensaerniaeth. Yn y rhaglen hon byddwn yn edrych ar dai o'r 1920au a'r 1930au.

A series where presenter Aled Samuel and buildings historian Bethan Scorey will be taking a look at Wales' homes through the ages. From the Tudor era up until today, we'll be exploring Wales' rich architectural history. In this programme we'll be focusing on houses from the 1920's and 1930's.

13:00 Y DEIS (R) (S) (SC) (HD)

Gêm gwis gwreiddiol ar gyfer timau sy'n cyfuno gwybodaeth gyffredinol, strategaeth a, gyda Deis yn ganolbwynt iddi, tamed bach o lwc! Yn ymuno â James Williams i gystadlu am y Jacpot heno mae: Jac a Rhodri, ffrindiau o Gaerdydd ac Aberystwyth; Bedwyr a Glesni, cwpwl ifanc sy'n byw yng Nghaerdydd; a Tomos a David, ewythr a nai o Llandudno.

Brand new quiz show for teams of two that combines knowledge, strategy and, like any roll of the dice, a little bit of luck. Joining James Williams to play for the Jackpot today are: Jac and Rhodri, friends from Cardiff and Aberystwyth; Bedwyr and Glesni, a young couple living in Cardiff; and Tomos and David, uncle and nephew from Llandudno.

13:30 Y FETS (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Ma Ystwyth Fets yn Aberystwyth wedi bod yn trin anifeiliaid am dros ganrif Gyda phoblogrwydd anifeiliaid anwes mae 'na fwy o alw nag erioed ar y Fets. Does dim dal beth ddaw trwy'r drws. O'r llawdriniaethau mawr, i'r brechiadau rwtin, mae'r practis fel ffair. Ac mae'r gwaith ar hyd ffermydd yr ardal yr un mor brysur Y tro yma ar Y Fets - Mae yna gwn a neidr yn profi'n llond llaw. Mae angen llawdriniaeth ar Billy'r bulldog ac mae Jac y King Charles a chwpwl o hyrddod yn teithio i'r practis mewn bach o steil.

Ystwyth Vets in Aberystwyth has been treating sick animals for over a century. With the increase in the popularity of domestic pets, the vets are busier than ever. There's no knowing what cases will come through their doors. From complicated operations to routine vaccinations, it's all go at the practice. The local farms are also keeping them just as busy. This time on Y Fets, a couple of dogs and a snake prove to be a handful. Billy the bulldog needs surgery while Jac the King Charles spaniel and a couple of rams travel to the practice in style.

14:00 DIM CWSG I QUINNELL (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Pan mae Cymru yn mynd i gysgu mae na griw arbennig o bobl yn dechrau eu diwrnod. Yn ymuno â'r garfan ddiwyd yma am shift unigryw mae'r eicon rygbi a'r dysgwr Cymraeg, Scott Quinnell. Yn y bennod gyntaf, mae Scott yn wyna ar fferm ger y Drenewydd ac yn trwshio trenau yng Nghaergybi.

When Wales goes to sleep there is an exceptional group of people who start their day. Joining this diligent squad for a unique shift is rugby icon and Welsh learner, Scott Quinnell. In the first episode, Scott is lambing on a farm near Newtown and fixing trains in Holyhead.

14:30 CYMRU WYLLT - Dychweliad yr Haul (R) (S) (SC) (HD)

Wedi'i ffilmio dros ddeuddeg mis dramatig, mae Cymru Wyllt yn ffilmio tirluniau gwyllt a thrawiadol y wlad, o fynyddoedd uchel i arfordiroedd garw. Dyma'r diwrnod cyntaf o wanwyn, ond mae bywyd gwyllt yn wynebu sawl her wrth i eira orchuddio'r tir.

Filmed across twelve dramatic months, Cymru Wyllt captures the country's varied wildlife and stunning landscapes, from high mountains to rugged coasts. It's the first day of spring, but wildlife faces many challenges as snow covers the land.

15:30 CYFRINACHAU'R GREAT ESCAPE (R) (S) (SC) (HD)

Mae mab a merch yn dilyn ôl traed eu tad, carcharor rhyfel yn yr Ail Ryfel Byd, ac yn datgelu gwybodaeth newydd am y cynllun mentrus a ysbrydolodd ffilm enwog 'The Great Escape'. Rhan un.

A son and daughter follow in the footsteps of their father, a prisoner of war in the Second World War, and reveal new information about the daring plan that inspired the famous film 'The Great Escape'. Part one.

16:30 CYFRINACHAU'R GREAT ESCAPE (R) (S) (SC) (HD)

Mae mab a merch yn dilyn ôl traed eu tad, carcharor rhyfel yn yr Ail Ryfel Byd, ac yn datgelu gwybodaeth newydd am y cynllun mentrus a ysbrydolodd ffilm enwog 'The Great Escape'. Rhan dau.

A son and daughter follow in the footsteps of their father, a prisoner of war in the Second World War, and reveal new information about the daring plan that inspired the famous film 'The Great Escape'. Part two.

17:35 FFERMIO (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres gylchgrawn am faterion cefn gwlad.

Weekly countryside and farming magazine.

18:10 POBOL Y CWM OMNIBWS (S) (AD) (HD)

Rhifyn omnibws yn edrych nôl ar ddigwyddiadau yng Nghwmderi dros yr wythnos ddiwethaf. Gydag isdeitlau Saesneg ar y sgrîn

Omnibus edition looking back at events in Cwmderi over the past week. With on-screen English subtitles.

19:15 NEWYDDION A CHWARAEON (S) (HD)

Newyddion a chwaraeon y penwythnos.

Weekend news and sport.

19:30 DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL - Hoff Adnodau'r Cymry (S) (SC) (HD)

Cleif Harpwood, Rachael Garside ac Elin Maher sy'n rhannu eu hoff adnodau gyda Nia Roberts.

Cleif Harpwood, Rachael Garside and Elin Maher share favourite Bible verses with Nia Roberts.

20:00 PRIODAS PUM MIL - Zoe & Becky (S) (SC) (HD)

Yn y rhaglen hon, mae Priodas Pum Mil yn mynd i ardal Abertawe, ac am y tro cyntaf erioed mae'r cofrestrydd sy'n priodi Becky a Zoe hefyd yn ffrind ac yn forwyn briodas – handi iawn! Mae'r ddwy yn hoff o chwarae gemau a Doctor Who, dim ond gobeithio bod dim Dalek yn agos!

In this programme, Priodas Pum Mil goes to the Swansea area, and for the first time ever, the registrar who marries Becky and Zoe is also a friend and bridesmaid - very handy! They both like playing games and Doctor Who, just hope there are no Daleks anywhere nearby!

21:00 DAL Y MELLT - Y Ddinas Fawr Ddrwg (S) (SC) (AD) (HD)

Mae problemau priodasol Mici yn parhau a Meri yn gwneud ei gorau i ad-dalu'r ddyled drwy geisio helpu'r sefyllfa. Mae sefyllfa Jiffy dan warchau Harry yn mynd yn waeth felly daw'r criw at eu gilydd eto....oes heist arall ar y gweill?

Mici's marital problems continue and Meri does her best to repay his generosity by trying to help the situation. Jiffy's situation under Harry's watch gets darker so the crew have to get back together....will they have to do another heist?

22:05 CLWB RYGBI (HD)

Darllediadau gemau Cwpan Her Rygbi Ewrop a Chwpan Pencampwyr Rygbi Ewrop.

Coverage of European Rugby Champions Cup games and European Rugby Challenge Cup games.

23:50 DIWEDD/CLOSE

Gwybodaeth Rhaglenni Programme Information – S4C

Dydd Llun - Monday 19/01/2026

06:00 CYW (HD)

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.

Fun-filled programmes for younger viewers.

06:00 OLOBOBS - Sanau (R) (HD)

Mae Bobl yn dod o hyd i hosan yn y goedwig ac yn ei throi'n ffrind newydd - hynny yw tan i Cwyn-wr gofyn amdani yn ôl! Mae'r Olobobs yn gwneud Oct-hosanau i helpu codi calon Bobl gyda sioe bypedau arbennig iawn.

Bobble finds a sock lying in the forest and turns it into a new friend - until Groan Up arrives and asks for it back! The Olobobs make Socktopuss to help cheer Bobble up with a very special puppet show.

06:05 SAM TÂN - Cyffro Cadetiaid (R) (SC) (HD)

Mae'r Cadetiaid Iau yn mynd ar ddiwrnod hyfforddi yn y goedwig. Rhaid i Sam Tân gael pethau dan reolaeth pan mae canister yn ffrwydro yn ystod y diwrnod hyfforddi.

The Junior Cadets go on a training day in the woods. Fireman Sam must get things under control when a canister explodes during the training day.

06:15 JEN A JIM POB DIM - Amser Ysgol Bysgod Bach (R) (S) (SC) (HD)

Mae'n ddiwrnod cynta'r tymor yn ysgol 'Dan Dŵr' ond mae un o'r disgyblion ar goll! Tybed all Jen a Jim, Capten Carys, Llew a Cyw helpu'r brifathrawes, Mrs Morfil ddod o hyd i'r creadur coll?

It is the first day of the school term 'Under Water' but one of the students is missing! Can Jen and Jim, Capten Carys, Llew and Cyw help Mrs Whale the headmistress, to find the missing creature?

06:30 CHWEDLAU TINGA TINGA - Pam fod Chwyddwiber yn Colli ei groen (R) (S) (HD)

Straeon lliwgar o Affrica am anifeiliaid y byd. Heddiw cawn ddysgu pam mae Chwyddwiber yn colli ei groen.

Colourful stories from Africa about the animals of the world. Today we hear why Puffadder sheds his skin.

06:45 BYD TAD-CU - Pam Nod Ni'n Chwerthin? (R) (S) (SC) (HD)

Mae Lewis yn gofyn 'Pam bod ni'n chwerthin?' ac wrth gwrs, mae Tad-cu yn adrodd stori hurt bost am drigolion y dre mwyaf diflas yn y byd, Aberdiflas, ble doedd neb byth yn chwerthin. Mae stori tad-cu'n nonsens llwyr felly diolch byth fod gan Hati'r gwningen yr ateb cywir.

Lewis asks 'why do we laugh' and of course Tad-cu tells an absurd story about the residents of the most depressing town in the world called Aberdiflas where nobody laughs. An absolute nonsense of a story from Tad-cu therefore thank goodness that Hati the rabbit has the correct answer.

07:00 CYWION BACH - Cadair (S) (SC) (HD)

Cadair fach, cadair fawr, cadair siglo. Ie Cadair yw'r gair heddiw.

Dere ar antur geiriau gyda'r Cywion Bach.

Little chair, big chair, rocking chair. yes, Cadair (chair) is the word today. Come on a word adventure with the Cywion Bach.

07:10 PABLO - Yn y Cymylau (R) (HD)

Mae gan Pablo ei ffordd ei hun o weld y byd, a heddiw mae'n mynd ar ei wyliau. Ond mae cyrraedd yr awyren ychydig yn frawychus, felly mae'r anifeiliaid yn mynd trwy bob cam i ddangos nad oes angen bod ofn y maes awyr.

Flying is fun, but the airport is a bit overwhelming. The animals help Pablo work out exactly what they need to do there.

07:20 MISHO -Mynd at y Doctor (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres sydd yn edrych ar pob math o sefyllfaoedd all godi pryder i blentyn bach; a dyma gyfle i dawelu meddyliau bach drwy ganu, sgwrsio a lot fawr o chwerthin! Y teimlad o fod ofn sydd dan sylw yn Misho heddiw, ac mae Dr Aw yn ei gwneud hi'n anodd iawn i blentyn bach fynd i weld y Doctor.

A series that looks at various situations that can cause worry to a small child; and how to ease those worries through singing, chatting and a lot of laughter! The feeling of being scared is in question in Misho today, and Dr Aw makes it very difficult for a small child to go and see the Doctor.

07:30 GUTO GWNINGEN - Antur Fawr y Dylluan (R) (SC) (HD)

Mae Guto yn defnyddio model o Dylluan i ddychryn Hen Ben ond mae'n dychryn y gwiwerod hefyd!

Guto uses a model Owl to scare off Hen Ben but he ends up scaring the squirrels too!

07:45 PARC GLAN GWIL (S) (SC) (HD)

Mae Cai Caffi'n trefnu noson byrgyrs yn y caffi, ond mae Sioned Siop yn cael trafferth gyda'r popty a does dim modd eu coginio. Daw Cadi Ceffylau i'r adwy a chynnig benthyg barbeciw i Cai. Mae'r noson byrgyrs yn llwyddiant mawr!

Cai Caffi organises a burger night in the cafe, but Sioned Siop has difficulty with the oven and can't cook the burgers. Cadi Ceffylau comes to their rescue by letting Cai borrow a barbecue. The evening is a big success!

08:00 CYW (HD)

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.

Fun-filled programmes for younger viewers.

08:00 ANIFEILIAID BACH Y BYD (R) (S) (SC) (HD)

Dewch ar antur gyda ni i gwrdd ac anifeiliaid bach y byd. Y tro hwn cawn ddysgu mwy am y Racwn a'r Gwyfyn.

Come with us on an adventure around the world to learn about the animals that live on our planet. In this programme we meet the Racoon and the Moth.

08:10 STIW - Beic (R) (S) (HD)

Mae Stiwn'n dysgu nad pethau newydd ydy'r pethau gorau bob amser, wrth i hen feic Taid fynd yn gyflymach na beic newydd sbon Elsi.

After seeing Elsi on her new bike Stiwn asks for one too. Taid fixes up his old bike and gives it to Stiwn, who learns that new things aren't always better.

08:25 CARU CANU A STORI - Heno Heno (R) (S) (SC) (HD)

Am y tro cyntaf erioed, mae Pws y gath yn penderfynu bod yn ddewr a chrwydro ymhellach na gwaelod y stryd. Mae e am fynd ar antur. Tybed a fydd yn mwynhau ei gyfle i grwydro?

Pws the cat decides to be brave and wander beyond the end of the street. I wonder if he'll enjoy his big adventure?

08:35 SION Y CHEF - Mango Dda Wir (R) (HD)

Mae hyder Siôn yn suddo pan mae Myrddin - chef sy'n arbenigo mewn ryseitiau mango - yn cyrraedd y pentref.
Siôn's confidence in his own abilities is shaken when Myrddin arrives with his Marvellous Mango Roadshow.

08:45 NE-WFF-ION (R) (S) (SC) (HD)

Ceiniog a niwc, dau air gwahanol i ddisgrifio'r un peth a Lwsi sy'n edrych ar yr amrywiaeth geiriau ni'n defnyddio mewn gwahanol ardaloedd.
Ceiniog and niwc, two different words to describe the same thing. Lwsi looks at the variety of words we use in different areas

09:00 OG Y DRAENOG HAPUS - Tywydd Stormus (R) (HD)

Mae'r cymylau'n gas ac yn grac uwchben yr Afon Lawen heddiw a mae'n gwneud Og a'i ffrindiau deimlo'n ofnus iawn.
The clouds are growlie and grumblie over Afon Lawen today and it's making Og and his friends very anxious.

09:05 TWM TWRCH - Twrchtila (R) (S) (SC) (HD)

Mae Senora Maria a'i mab Rodrigo yn agor eu caffi heddiw ond pan mae Twm Twrch yn bwyta gormod o'r tsili poeth beth sy'n digwydd iddo!
Today Senora Maria and Rodrigo her son are opening their cafe and when Twm Twrch eats too much of the hot chilli disaster strikes!

09:20 EIN BYD BACH NI - Mongolia (R) (S) (SC) (HD)

Dewch ar daith o gwmpas y byd! Bydd y daith heddiw yn mynd â ni i Fongolia sydd ar gyfandir Asia. Gwlad sy'n bell iawn o'r arfordir sy'n gartref i'r anialwch Gobi yw hi. Hefyd mae'n gartref i bobl frodorol o'r enw Nomadiaid sy'n byw mewn pebyll.
Let's take a trip across the world! Today's journey will take us to Mongolia which is a country in Asia. This is a country that is far away from any coast and is home to the Gobi desert. Also living here are a group of native people called Nomads who live in tents.

09:30 JONI JET - Joni Ar Wib (R) (SC) (HD)

Mae rhywbeth yn bod ar y Jet-faneg, sy'n achosi i Joni symud yn gynt na gweddill y byd. Rhaid iddo ddysgu i arafu rhag bod yn sownd am byth.
Something is wrong with the Jet-glove, which causes Joni to move faster than the rest of the world. He must learn to slow down to avoid being stuck forever.

09:45 CACAMWNCI (R) (S) (SC) (HD)

Mae Cacamwnci yn ôl gyda mwy o sgetsys dwl a doniol! Cymeriadau newydd sbon fel Iestyn Ymestyn, Tesni Trwsio Popeth, Dani Rheolaeth, a rhai o'r ffefrynnau fel Plismon Preis, Vanessa drws nesa a Delyth Dylwythen. Byddwch yn barod am lond bol o chwerthin!
Cacamwnci is back with more funny and silly sketches! There are new characters like Iestyn Ymestyn, Tesni Trwsio Pobeth, Dani Rheolaeth, and a few favourites like Plismon Preis, Vanessa drws nesa and Delyth Dylwythen . Be ready for a belly full of laughs!

10:00 CYW (R) (HD)

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.
Fun-filled programmes for younger viewers.

10:00 OLOBOBS - Parti Haf (R) (HD)

Mae'r haul yn tywynnu yn y Goedwig ac mae'r Olobobs a'u ffrindiau'n cael parti haf! Mae Crensh wedi gwneud hufen iâ Mwyar Melys ond yn fuan iawn mae'n sylweddoli bod llwyau ganddi, ond mae wedi anghofio'r bowlenni! Beth wnân nhw? A fydd ymweliad â'r Copabob yn datrys y broblem cyn i'r hufen iâ doddi?

The sun is shining in the Olobob Forest and the Olobobs and their friends are having a summer party! Crunch has made her special Bibbleberry ice-cream but soon realises that she has remembered spoons to eat it with, but not the bowls to put it in! What are they going to do? Will a trip to the Copabob fix things before the ice-cream melts?

10:05 SAM TÂN - Dirprwy Jams (R) (SC) (HD)

Mae Jams yn gofyn a gofyn i Malcolm os allith e fod yn ddirprwy iddo. Mae Malcolm yn caniatáu iddo fod yn ddirprwy ac mae Jams yn datrys "Pwy wnaeth ddwyn y brechdanau?" Da iawn Jams!

James keeps asking Malcolm whether he can be his deputy. Malcolm agrees and James solves the mystery of "Who stole the sandwiches?" Well done James!

10:15 JEN A JIM POB DIM - Y Pili Pala (R) (S) (SC) (HD)

Mae Siani Flewog, un o ffrindiau Plwmp a Deryn wedi bod ar goll ers awr, ond pa mor hir yw awr? Tybed a all 'y llyfr pob dim' helpu esbonio amser i'r criw?

Siani Flewog, one of Plump and Deryn's dear friends is missing. She's been gone a full hour, but how long is an hour? Can Jim's book help explain how to measure time?

10:30 CHWEDLAU TINGA TINGA - Pam fod gan Galago Lygaid Mawr (R) (S) (HD)

Straeon lliwgar o Affrica am anifeiliaid y byd. Heddiw cawn ddysgu pam mae gan Galago lygaid mawr.

Colourful stories from Africa about the animals of the world. Today we hear why Bushbaby has big eyes.

10:45 BYD TAD-CU - Adar yn Trydar (R) (S) (SC) (HD)

Mae Nel yn gofyn 'Pam bod adar yn trydar?' ac mae Tad-cu'n ateb gyda stori sili ond annwyl iawn am gogydd Eidalaidd o'r enw Vincenzo a'i pizza's anarferol. Mae gan Hati'r gwningen, wrth gwrs, ateb llawer mwy cywir i'w rannu gyda ni.

Nel asks why do birds tweet? and Tad-cu has a very silly but dear story about an Italian Chef called Vincenzo and his unusual pizzas. Hati the rabbit is of course on hand to share the correct reason.

11:00 CYWION BACH - Lori (R) (S) (SC) (HD)

Dere ar antur geiriau gyda'r Cywion Bach wrth iddyn nhw ddysgu gair arbenig - Lori. Bîp Bîp!

Come on a word adventure with the Cywion Bach as they learn a special word today, Lori (lorry) Beep Beep!

11:10 PABLO - Lona'r Llew (R) (HD)

Mae gan Pablo ei ffordd ei hun o weld y byd, ac mae'r gardigan oren yna'n edrych yn ddychrynlyd iawn. Mae'r anifeiliaid i gyd ofn y bwystfil hefyd, heblaw am Lona, sydd mor ddewr a llew.

There's a scary monster in his room, and only Lama is brave enough to face it.

11:20 MISHO - Torri Gwallt (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres sydd yn edrych ar pob math o sefyllfaoedd all godi pryder i blentyn bach; a dyma gyfle i dawelu meddyliau bach drwy ganu, sgwrsio a lot fawr o chwerthin! Y teimlad o fod yn bryderus sydd dan sylw yn Misho heddiw, a mae Sioni Snips yn ei gwneud hi'n anodd iawn i blentyn bach fynd i dorri gwallt.

A series that looks at various situations that can cause worry to a small child; and how to ease those worries through singing, chatting and a lot of laughter! The feeling of being worried is in question in Misho today, and Sioni Snips makes it very difficult for a small child to go for a haircut.

11:30 GUTO GWNINGEN - Hanes Trychineb Dili Minllyn (R) (SC) (HD)

Mae Mrs Minllyn yn camddeall cyngor Guto ac yn ceisio cael cynhwysion o ardd Mr Puw felly mae Guto a'i ffrindiau yn ceisio ei hachub.

Mrs Minllyn misunderstands Guto's advice and tries to get ingredients from Mr Puw's garden. Guto launches a daring rescue mission.

11:45 PARC GLAN GWIL (R) (S) (SC) (HD)

Mae Syr Gwil wedi trefnu noson arbennig o driciau hyd gan Hywel Hwyl a'i anifeiliaid, ond mae Madam Fflwffen y gwningen ar goll. Mae'r criw yn gorfod edrych ymhob man am y gwningen.

Syr Gwil has organised a special evening of magic tricks by Hywel Hwyl and his animals, but Madam Fflwffen the rabbit is missing. The crew look everywhere for the rabbit.

12:00 NEWYDDION S4C A'R TYWYDD (S) (HD)

Newyddion S4C a'r Tywydd.

S4C News and Weather.

12:05 SAIN FFAGAN (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Dyma olwg unigryw tu ôl i ddrysau Sain Ffagan. Ar ôl 6 mis o waith adnewyddu, mae'n bryd i'r sgaffald ddod i lawr oddi ar Dwr y Cloc. Yn Fferm Kennixton, mae Ceri'r garddwraig yn cael hwyl yn glanhau'r lloriau wrth stampio perlysiâu o'r gerddi i mewn i'r pren.

A unique behind-the-scenes look at Saint Fagan's National Museum of History. After 6 months of restoration work, it's time for the scaffolding to come down on the refurbished Clock Tower. Gardener Ceri is having fun cleaning the floorboards at Kennixton Farm by stamping herbs into them!

12:30 HENO (R) (S) (SC) (HD)

Rhaglen gylchgrawn nosweithiol gyda straeon o bob cwr o Gymru.

Nightly magazine with stories from all over Wales and special guests.

13:00 JASON MOHAMMAD: STADIYMAU'R BYD (R) (S) (SC) (HD)

I orffen y gyfres, mae Jason yn profi awyrgylch unigryw diwrnod gêm mewn stadiymau sy'n amrywio o'r hanesyddol i'r gwirioneddol eiconig, gan gynnwys Cae Ras Wrecsam, Stadiwm Brandywell yn Derry, Arena Hangzhou yn Tsieina a Stadiwm Azteca yn Ninas Meicsico.

To finish the series, Jason experiences the unique atmosphere of matchday in stadiums ranging from the historic to the truly iconic, including Wrexham's Racecourse Ground, Brandywell Stadium in Derry, the Hangzhou Arena in China and the Azteca Stadium in Mexico City.

14:00 NEWYDDION S4C A'R TYWYDD (S) (HD)

Newyddion S4C a'r Tywydd.

S4C News and Weather.

14:05 PRYNHAWN DA (S) (HD)

Cyfres gylchgrawn gydag eitemau coginio a ffasiwn a chyingor am bopeth o addurno'ch cartref i ddewis llyfr da.

Magazine series including features on fashion, style, antiques and cookery.

15:00 NEWYDDION S4C A'R TYWYDD (S) (HD)

Newyddion S4C a'r Tywydd.

S4C News and Weather.

15:05 CYFRINACHAU'R LLYFRGELL - Siân Phillips (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres lle mae Dot Davies yn mynd â sêr adnabyddus ar daith bersonol ac emosiynol drwy goridoriau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cartref ein Cyfrinachau, Co'r Genedl i ganfod y pethe sy'n bwysig iddyn nhw ac i ni ddod i'w 'nabod nhw'n well. Yn rhannu Cyfrinachau'r Llyfrgell y tro yma, seren y llwyfan a'r sgrin sy'n dal i'n swyno yn ei nawdegau - Siân Phillips.

Series in which Dot Davies guides well known celebrities on a deeply personal and emotional journey through the vaults of the National Library of Wales, home to all our secrets to find out what matters to them and for us to get know them better. Sharing the Library's best kept secrets this time is the evergreen star of stage and screen, Siân Phillips.

16:00 AWR FAWR (HD)

Rhaglenni ar gyfer y plant iau ar ôl ysgol.

Programmes for youngsters after school.

16:00 CYWION BACH - Gwallt (R) (S) (SC) (HD)

Gwallt yw'r gair arbennig heddiw.

Dere i ganu, chwarae a dysgu gair gwyh gyda'r Cywion Bach.

Gwallt (hair) is the special word today. Come and sing, play and learn a great word with the Cywion Bach.

16:10 SAM TAN - Ynys y Deinosoriaid (R) (SC) (HD)

Mae'r Athro Pickles wedi trefnu "Diwrnod Arbennig ar Ynys y Deinosoriaid", ac mae Norman yn ceisio perswadio Derec bod na ddeinosor yn dal yn fyw ar Ynys Pontypandy!

Dr. Pickles has arranged a Special Day on Dinosaur Island, and Norman is trying to persuade Derek that there's a dinosaur still alive on Pontypandy island.

16:20 EIN BYD BACH NI - Ynysoedd y Philipinau (R) (S) (SC) (HD)

Dewch ar daith o gwmpas y byd! Heddiw byddwn ni'n ymweld ag Asia ac Ynysoedd y Philipinau. Gwlad sy' wedi'i gwneud o 700 o ynysoedd yw hi lle mae'r bobl yn siarad yr iaith Fflipino. Bydd cyfle i ymweld â phrifddinas Manila a'i dull trafndiaeth unigryw, y Jeepney.

Let's take a trip across the world! Today we are visiting the Philippines which are a group of islands in Asia. The country is made up of 700 different islands where people speak a language called Filipino. We'll get to visit the capital city Manila and see its unique form of transport called the Jeepney.

16:30 GUTO GWNINGEN - Hanes Cawlach y Canu (R) (SC) (HD)

Mae Guto Gwningen yn trio tynnu sylw Mr Cadno oddi wrth glyweliadau cerddorol blynyddol Mr Pysgotwr.

Guto Gwningen must distract Mr Cadno from Mr Pysgotwr's annual recital auditions.

16:45 PARC GLAN GWIL (R) (S) (SC) (HD)

Mae Misha Mop a Glynwen Glanhau yn cael diwrnod o dacluso'r golchdy, ac yn darganfod fod hoff fop pinc Misha ar goll. Pwy sydd wedi colli'r mop?

Mae angen i Misha ymddiheuro.

Misha Mop and Glynwen Glanhau are spending the day cleaning the laundrette. They cannot find Misha's favourite pink mop. Who has lost the mop? Misha has to apologise...

17:00 STWNSH (HD)

Hwyl a sbri a chyfresi di-ri ar gyfer plant a phobl ifanc.

Tune in to see old favourites and new series for youngsters all over Wales.

17:00 BWYSTFIL (R) (HD)

Yn union fel ni, mae gan bob bwystfil deulu a byddwn ni yn cyfri lawr teuluoedd a rhieni gorau byd yr anifeiliaid.

Even beasts have families just like us. We'll countdown the top ten families and parents in the animal kingdom in this week's show.

17:10 Y SMYRFFS - Gwyliwch y Gath (R) (SC) (HD)

Mae Craca Hyll yn disgyn o dan reolaeth meddwl Archalen ac mae'n rhaid i'r Smyrffs helpu i'w ryddhau.

Craca Hyll falls under the mind control of Archalen and the Smyrffs must help to set him free.

17:20 BOOM BANG! - Ysgol Llwynycelyn (S) (SC) (HD)

Aled Bidder a Heledd Roberts sy'n cyflwyno cyfres ffrwydrol gyda dau dîm yn brwydro yn erbyn ei gilydd mewn heriau gwirion gwyddonol. Rhaglen olaf y gyfres lle mae ysgolion yn cystadlu mewn gemau gwyddonol gwyllt dan ofal Aled Bidder a Heledd Roberts. Criw Ysgol Llwynycelyn sy'n cystadlu y tro yma. Bydd Zach a Peri'n creu lot o lanast gydag arbrawf ffrwydrol cyn bod y timau'n rasio ar feics yn y rownd olaf i drio ennill pwyntiau pwysig.

Aled Bidder and Heledd Roberts present an explosive series with two teams battling each other in a mad science gameshow. The two teams competing this time are from Ysgol Llwynycelyn. Zach and Peri's explosive experiment makes a lot of mess, and in the final game, the teams will race on bicycles to win those important points.

